## Crynodeb Gweithredol

### Cefndir

Ffynhonnell y cysyniad o safonau ar gyfer darparu llecynnau gwyrdd naturiol hawdd mynd atynt mewn trefi a dinasoedd oedd corff o waith o ddechrau'r 1990 oedd â'r bwriad o dynnu sylw at bwysigrwydd natur yn y cyd-destun trefol. O ganlyniad mabwysiadodd English Nature y syniad yn 1995 gan gyhoeddi Adroddiad Ymchwil Rhif 153, *Accessible Nautral Greenspace in Towns and Cities - a Review of Appropriate Size and Distance Criteria* a rhoi cyhoeddusrwydd i'r safon yn 1996 yn y daflen *A Space for Nature*. Gwnaethpwyd arolwg o'r safon yn 2002 a lluniwyd cyfarwyddyd ynglyn â gweithredu.

Daeth y safon yn fwy perthnasol wrth i agenda newydd ar gyfer gwella ansawdd bywyd trefol weld golau dydd yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Gweithlu Trefol yn 1999, *Towards an Urban Renaissance.* Ymatebodd y llywodraeth i'r adroddiad gydag amrediad o fentrau cyffredinol, fel Papur Gwyn Trefol 2000, a rhai yn ymwneud yn benodol â llecyn agored, megis sefydlu'r Gweithlu Llecynnau Gwyrdd Trefol. Cydnabyddid fwyfwy rôl llecynnau gwyrdd mewn gwella ardaloedd trefol a daethpwyd i sylweddoli fwyfwy fod nifer o flynyddoedd o dan fuddsoddi wedi arwain at leihad sylweddol yn ansawdd cyffredinol yr adnodd pwysig yma.

Ni chafodd y gwaith yma'i hyrwyddo'n ffurfiol yng Nghymru. Cafodd llywodraeth leol ei ad-drefnu yn helaeth yn 1996 a sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Datganoledig yn 1998. O ganlyniad cafodd y strwythurau ar gyfer datblygu cynllunio trefol a pholisi cadwraeth natur eu gwahanu yng Nghymru a Lloegr tra bo llywodraeth leol mewn cyfnod estynedig o drawsnewid i'w ffurf awdurdod unedol newydd. Bu i CCGC gomisiynu'r adroddiad yma felly er mwyn gweld a allai'r model fod o ddefnydd yng Nghymru a sut orau i hyrwyddo defnydd ohono.

### Strwythur y Prosiect

Roedd y prosiect yn amcanu at adeiladu ar y gwaith cynharach oedd wedi'i wneud gan English Nature drwy gynhyrchu arolwg gwyddonol wedi'i ddiweddaru a thrwy edrych yn fanwl ar y strwythurau polisi oedd yn cael eu llunio fyddai'n debygol o ddylanwadu ar y ffordd y gall llywodraeth ac awdurdodau lleol ddefnyddio a chynnal y safon. Er mwyn edrych yn fanwl ar y model yn y cyd-destun Cymreig, gwnaethpwyd arolwg o bolisi perthnasol ac ymgynghorwyd gydag unigolion a chyrff arbenigol penodol.

Mae'r adroddiad wedi'i llunio fel ei bod yn adrodd ar dair elfen allweddol gan ddechrau gyda thystiolaeth ynghylch pwysigrwydd llecynnau gwyrdd trefol, yna ceir arolwg o bolisi yng Nghymru cyn gorffen gyda thrafodaeth ynglyn â materion ymarferol yn ymwneud â defnyddio'r model. Mae'r adroddiad yn terfynu gyda nifer o ddarganfyddiadau allweddol a chyda nifer o argymhellion.

## Y Prif Ddarganfyddiadau

Canfu'r arolwg fod gwaith diweddar yn cadarnhau'n fras sail wyddonol Adroddiad Ymchwil Rhif 153 yr EN er mai prin yw'r ymdriniaeth o nifer o agweddau o'r rôl y mae llecyn gwyrdd yn ei chwarae mewn cyd-destun trefol. Cafwyd cefnogaeth dda, fodd bynnag, i werth llecyn gwyrdd i gynnal bioamrywiaeth a chyfleusterau hamdden i bobl ac fe wnaeth strwythur y safon ei hun wrthsefyll yr archwiliad yma. Cafwyd tystiolaeth pellach ynglyn â gwerth economaidd ac amgylcheddol llecyn gwyrdd a chafodd corff cynyddol o waith oedd yn nodi ei gyfraniad posibl i iechyd a lles dynol ei arolygu.

Ceir newid cyflym ar hyd o bryd mewn nifer o ageddau ar y fframwaith polisi cyhoeddus sydd yn effeithio ar gynllunio a rheolaeth llecyn gwyrdd. Mae darpariaeth danfoniad gwasanaeth awdurod lleol wedi cael ei dargedu gan nifer o fentrau i wella ansawdd, gwerth ac ymrwymiad y gymuned. Mae newid ar y gweill ar lefel llywodraeth ganolog, gyda Phapur Gwyrdd ar y system gynllunio wedi'i gyhoeddi yn ddiweddar gan Lywodraeth San Steffan, sef y cyhoeddiad *Green Spaces Better Places* ym Mai 2002, adroddiad terfynol y Gweithlu Llecynnau Gwyrdd Trefol. Mae polisi cynllunio strategol gofodol ar gyfer Cymru hefyd yn datblygu'n gyflym.

Mae'r duedd tuag at newid yn y polisi amgylcheddol yn gweithio yn gyffredinol tuag at hyrwyddo materion llecynnau gwyrdd a thrwy hynny yn creu fframwaith fwy ffafriol ar gyfer model safonau llecyn gwyrdd naturiol. Mae hyn yn arbennig o wir yng Nghymru ble y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n gryf i ailfywiogi trefol yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy ac i wella ansawdd bywyd (ac ansawdd yr amgylchfyd) cymunedau trefol.

Gan nad yw'r model wedi cael ei hyrwyddo'n weithredol yng Nghymru, ychydig iawn o ymwybyddiaeth ohono oedd yna ymhlith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy. Roedd y diffyg ymwybyddiaeth yma yn golygu nad oedd nifer o awdurdodau lleol wedi gweithio gyda'r safon o gwbl. Cafodd amrediad o rwystrau, technegol a chyfansoddiadol, i weithredu'r model eu nodi.

Cafwyd fod amrywiaethau mawr yn y ffordd mae gwasanaethau llecynnau gwyrdd yr awdurdod lleol yn cael eu strwythuro ac yn ansawdd, sgôp a chyfredolrwydd y data sydd ar gael. Er bod awdurdodau lleol yn gwneud cryn ddefnydd o safonau llecyn agored roedd safonau o'r fath yn canolbwyntio yn gyfan gwbl ar ddarparu cyfleusterau chwaraeon a hamdden gan esgeuluso llecynnau gwyrdd naturiol.

## Argymhellion

Roedd y prosiect yn gallu nodi nifer o rwystrau arwyddocaol yn ffordd gweithredu'r model ac mae wedi gwneud argymhellion i ddelio â nifer ohonynt. Dyma rai o'r prif argymhellion:

- dylai **CCGC** ddarparu cefnogaeth ychwanegol i'r model trwy: ddarparu cyfarwyddyd ymarferol (ar ffurf cit twls gweithredu); gweithredu strategaeth gwaith allanol i wella proffil y model; a thrwy ddefnyddio'i ddylanwad i alw am gael cyfeiriad at y model mewn cyfarwyddyd polisi cenedlaethol a rhanbarthol a phan ymgynghorir â hwy ynglyn â chynnwys datblygu lleol neu ynglyn â materion cynllunio unigol.

- dylai'r **awdurdodau lleol** ddatblygu stategaethau llecynnau gwyrdd fel modd o sicrhau cynllunio llecynnau gwyrdd cytbwys gan gynnwys y defnydd o'r model ANGS ynghyd â mesurau eraill; cynnal archwiliadau rheolaidd o lecynnau agored a dylai osod safonau llecynnau gwyrdd sydd yn addas yn lleol; a

- dylai **llywodraeth ganolog Cymru** weithio tuag at ddatblygu fframwaith unigol ar gyfer cynllunio llecynnau gwyrdd integredig fel amcan tymor hir.

Mae'r model Safonau Llecynnau Gwyrdd Naturiol Hawdd mynd atynt o bosibl yn fwy perthnasol ar hyn o bryd nag ydoedd pan gyhoeddwyd ef gyntaf. Mae datblygiadau cyfredol o fewn llywodraeth ganolog a lleol yn galw fwyfwy am fodd o fesur ansawdd danfoniad gwasanaeth ac o gynnal llunio polisi. Fel yr union fath o declyn ar gyfer cynllunio llecynnau gwyrdd naturiol, maen bosibl i'r model fod o fudd aruthrol i awdurdodau lleol, ond mae'n rhaid rhoi iddo gefnogaeth trwy ledaenu gwybodaeth, rhoi cyfarwyddyd ynglyn â sut i weithredu a rhoi iddo rywfaint o fesur o gydnabyddiaeth swyddogol ar lefel cenedlaethol. Cyn belled ag y ceir y rhain, efallai y bydd awdurdodau lleol yn gwneud mwy o ddefnydd o'r model.